

Ymgynghoriad ar ganllawiau drafft ynghylch tystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg

Medi 2015

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heb gynnwys y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid nodi mai eiddo Cyngor Fferyllol Cymru yw'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd o drydydd parti yn cael ei ddefnyddio rhaid cael caniatâd perchennog hawlfraint hwnnw hefyd.

(h) Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2015

Cynnwys

Trosolwg	4	Adnewyddu cofrestriad	13
Y broses ymgynghori	5	Dychwelyd i'r gofrestr	13
Cefndir	7	Pryderon am allu iaith	13
Gwybodaeth o'r iaith Saesneg	8	Sut i ymateb	14
Meini prawf asesu tystiolaeth iaith	9	Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	15
Mathau o dystiolaeth y byddwn yn eu derbyn	10	Monitro cydraddoldeb	23
Pryd i ddarparu tystiolaeth o wybodaeth o'r iaith Saesneg wrth gofrestru am y tro cyntaf	12	Atodiad 1 Canllawiau drafft ynghylch tystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg	25

Rhaid derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn **erbyn 17 Rhagfyr 2015.**

Ymgynghoriad ar ganllawiau drafft ynghylch tystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg

1. Trosolwg

Mae'r CFFC yn ymgynghori tan **Ddydd Iau 17 Rhagfyr 2015** ar ganllawiau drafft ynghylch y dystiolaeth, gwybodaeth a dogfennau y gellir eu cyflwyno gan ymgeisydd neu aelod cofrestredig i fodloni'r cofrestrydd bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg, a'r broses y bydd y cofrestrydd yn ei dilyn i benderfynu a ydyw'n fodlon bod gan y person y wybodaeth honno (gweler erth 23A, Gorchymyn Fferyllol 2010, wedi ei gosod gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiol (Gwybodaeth o'r iaith Saesneg) 2015)¹.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, rydym hefyd yn ymgynghori ar newidiadau rydym yn eu cynnig i'n rheolau. Prif ddiben y cynigion hyn yw gweithredu'r gofyniad statudol bod cofrestru gyda ni yn amodol ar aelodau cofrestredig yn meddu ar drefniant indemniad addas a'r wybodaeth o'r iaith Saesneg sydd ei hangen ar gyfer ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Gellir gweld yr ymgynghoriad ar y diwygiad drafft i reolau ar ein gwefan, www.pharmacyregulation.org/get-involved/consultations/active-consultations/rules-and-language-consultations

¹ www.legislation.gov.uk/uksi/2015/806/pdfs/uksi_20150806_en.pdf

2. Y broses ymgynghori

Mae'r cyngor wedi dyfal ystyried ystod o wybodaeth a thystiolaeth wrth ddatblygu'r ymgynghoriad hwn ar ganllawiau drafft. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i roi ein barn ar brawf ac mae'r cyngor am wneud y penderfyniadau gorau posibl pan fydd yn cwrdd i drafod cymeradwyo'r canllawiau. Mae arnom angen help gan bobl sy'n meddu ar wybodaeth a barn, i brofi ein hagwedd gyffredinol tuag at y canllawiau yn ogystal â'r cynigion penodol ynghylch y dystiolaeth y bydd arnom ei hangen gan weithwyr fferyllol proffesiynol i ddangos bod ganddynt wybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol, ac effaith a manteision posibl y cynigion.

Bydd yr ymgynghoriad yn para 12 wythnos ac yn dod i ben **Ddydd Iau 17 Rhagfyr 2015**. Yn ystod y cyfnod hwn, byddem yn croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn anfon y ddogfen hon i ystod o randdeiliaid, yn cynnwys cyrff cynrychioli proffesiynol, cyflogwyr a chyrrff cynrychioli cleifion. Gobeithiwn y byddant yn darllen yr ymgynghoriad ac yn ystyried rhannu eu barn gyda ni.

Gallwch gwblhau'r holiadur hwn neu fynd i'n gwefan a chwblhau fersiwn ar-lein yno, www.pharmacyregulation.org/get-involved/consultations/active-consultations/rules-and-language-consultations

Sut i ymateb

Mae nifer o ffyrdd y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad.

Gallwch gwblhau'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon neu fynd i'n gwefan a chwblhau'r fersiwn ar-lein yno.

Os ydych yn cwblhau'r holiadur a ddarperir yma gofynnwn i chi ei anfon i:

- e-bost consultations@pharmacyregulation.org gyda'r pwnc 'ymgynghoriad iaith Saesneg'
- cyfeiriad **Ymateb i'r ymgynghoriad iaith Saesneg, Tîm Datblygu Rheoleiddio, Cyngor Fferyllol Cyffredinol, 25 Canada Square, Llundain E14 5LQ**

Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon neu sylwadau yr hoffech eu rhoi ynghylch y broses ymgynghori ei hun, anfonwch nhw i:

- e-bost
feedback@pharmacyregulation.org

neu

- cyfeiriad
**Proses ymgynghori iaith Saesneg,
Tîm Llywodraethu,
Cyngor Fferyllol Cyffredinol,
25 Canada Square,
Llundain E14 5LQ**

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn os gwelwch yn dda.

Adroddiad yr ymgynghoriad

Gynted ag y daw'r cyfnod ymgynghori i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law a bydd y Cyngor yn eu hystyried wrth gyrraedd penderfyniad. Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac eglurhad o'r penderfyniadau a wnaed. Bydd y rhain ar gael ar ein gwefan www.pharmacyregulation.org

Y bwriad yw i'r Cyngor ystyried cymeradwyo'r canllawiau yn ei gyfarfod yn Ebrill 2016 a byddai'r canllawiau wedyn yn cael eu cyhoeddi gynted ag y cwblheir y broses seneddol i ddiwygio'r rheolau Cofrestru ac Addasrwydd Ymarfer.

3. Cefndir

Ni yw'r rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig ym Mhrydain Fawr. Ein rôl yw diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae ein prif rolau'n cynnwys:

- cymeradwyo cymwysterau ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ac achredu darparwyr addysg a hyfforddiant
- cadw cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol ac eiddo fferyllol
- gosod safonau ar gyfer ymddygiad, moesegau, perfformiad, hyfedredd, addysg a hyfforddiant, a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- sefydlu a hyrwyddo safonau ar gyfer ymarfer fferyllol diogel ac effeithiol mewn fferyllfeydd cofrestredig
- sefydlu gofynion cymhwyster i ymarfer (FtP), monitro FtP gweithwyr fferyllol proffesiynol a delio'n deg a chymesur â chwynion a phryderon

Y prif ddeddfau sy'n llywodraethu'r CFfC yw Gorchymyn Fferyllol 2010 (SI 2010/231) a Deddf Meddyginiaethau 1968 (c. 67). Mae darpariaethau manylach ein swyddogaethau rheoleiddio yn cael eu hegluro mewn offer statudol a adwaenir fel 'rheolau'. Mae'r canllawiau hyn ynghylch tystiolaeth a phroses wedi eu drafftio i gydymffurfio ag erthygl 23A Gorchymyn Fferyllol 2010.

Mae geiriad llawn y canllawiau a gynigir ynghylch tystiolaeth a phroses yn atodiad 1.

4. Gwybodaeth o'r iaith Saesneg

Gwnaed [Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiol \(Gwybodaeth o'r iaith Saesneg\) \(S.I. 2015/806\)](#) (Gorchymyn Gwybodaeth o'r iaith Saesneg) ym Mawrth 2015. Daw'r darpariaethau perthnasol i rym drwy orchymyn cychwyn a bydd yn diwygio'r Gorchymyn Fferyllol er mwyn cryfhau pwerau'r CFFC i gyflwyno rheolau iaith teg a chymesur.

Nod y newidiadau deddfwriaethol hyn yw gwella diogelwch y cyhoedd drwy sicrhau mai dim ond gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd â gwybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg i'w galluogi i ddarparu fferylliaeth ddiogel ac effeithiol fydd yn gymwys i gofrestru a gweithio ym Mhrydain Fawr (PF).

Mae'r anghenraid i feddu ar wybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol yn berthnasol i bob ymgeisydd ac aelod cofrestredig yn cynnwys y rhai sydd wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AAE) a'r Swistir.

Mae Erthygl 23A y Gorchymyn Fferyllol² yn gosod rheidrwydd ar y CFFC i ymgynghori ar, a chyhoeddi, canllawiau ar:

- y dystiolaeth, gwybodaeth neu ddogfennau y mae'n rhaid i ymgeisydd eu darparu er mwyn dangos bod ganddo neu ganddi'r wybodaeth o'r iaith Saesneg sy'n angenrheidiol i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol fel fferylllydd neu dechnegydd fferyllol a'r

- broses y bydd y cofrestrydd yn ei dilyn wrth benderfynu a ydyw'n fodlon bod gan yr ymgeisydd y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg.

Bydd gan unrhyw berson y mae ei gais i ymaelodi â'r gofrestr wedi ei wrthod ar y sail ei fod wedi methu â bodloni'r cofrestrydd bod ganddo'r wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg hawl i apelio.

Mae'r Gorchymyn Gwybodaeth o'r iaith Saesneg hefyd yn creu categori nam addasrwydd ymarfer newydd mewn perthynas â gallu yn yr iaith Saesneg. Bydd hyn yn ein galluogi i gychwyn gweithdrefnau addasrwydd ymarfer mewn achosion lle gallai gwybodaeth gweithiwr fferyllol proffesiynol o'r iaith Saesneg achosi risg ddifrifol i ddiogelwch claf.

Nid cymryd lle'r rôl bwysig sydd gan gyflogwyr yn gwirio bod gan weithwyr y maen nhw'n eu cyflogi wybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg yw nod y cynigion sydd yn y ddogfen hon. Rhaid i gyflogwyr barhau i sicrhau bod gan weithwyr y maen nhw'n eu cyflogi wybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg i'w galluogi i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol o fewn eu rôl.

² Cyflwynwyd Erthygl 23A y Gorchymyn Fferyllol gan Y Gorchymyn Gwybodaeth o'r iaith Saesneg

5. Y canllawiau ynghylch tystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg

Ar hyn o bryd, dim ond fferyllwyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r AEE sy'n gorfod darparu tystiolaeth o'u gallu yn yr iaith Saesneg. Maen nhw'n gwneud hyn drwy gyflwyno tystiolaeth eu bod wedi llwyddo yn fersiwn academiaidd y System Profi Iaith Saesneg (IELTS)³ gyda chyfanswm sgôr o 7 o leiaf a heb un sgôr is na 7 ymhob un o feysydd darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad, mewn un eisteddiad.

Rhaid darparu'r dystysgrif IELTS, yn dangos y sgorau hyn, yn rhan o gais person o'r tu allan i'r AEE i'r Rhaglen Asesu Fferyllwyr Tramor (OSPAP)⁴.

Meini prawf asesu tystiolaeth iaith

Ar sail ein profiad o fod wedi defnyddio'r prawf IELTS i ddangos gallu ymgeiswyr cymwys o'r tu allan i'r AEE rydym yn cynnig bod yn rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos eu gallu yn yr iaith Saesneg yn y pedwar maes canlynol:

- Darllen
- Ysgrifennu
- Gwrando a
- Siarad yn Saesneg.

Rydym hefyd yn cynnig bod yn rhaid i'r dystiolaeth a ddarperir

- fod yn ddiweddar, yn annibynnol ac yn wydn;
- dangos yn glir bod yr ymgeisydd yn gallu darllen, ysgrifennu a chyfathrebu gyda chleifion, defnyddwyr gwasanaethau fferyllol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn Saesneg; ac y gellir
- ei dilysu'n hawdd gennym ni.

Cwestiwn 1

- **Ydych chi'n cytuno y bydd y meini prawf sy'n cael eu cynnig yn darparu sicrwydd i'r cofrestrwydd bod gan ymgeisydd neu aelod cofrestredig y wybodaeth o'r iaith Saesneg sy'n angenrheidiol i allu ymarfer fferylliaeth yn ddiogel ac yn effeithiol?**

³ www.ielts.org/

⁴ www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/international_information_pack_0315.pdf

Mathau o dystiolaeth y byddwn yn eu derbyn i ddangos gwybodaeth o'r iaith Saesneg

Ymgeiswyr wedi cymhwyso yn y DU

Rydym yn cynnig na fyddai fel arfer angen i weithwyr fferyllol proffesiynol sydd wedi cymhwyso yn y DU ac sydd wedi

- cwblhau eu cymwysterau perthnasol ac wedi eu dysgu a'u harholi yn Saesneg dan oruchwyliaeth fferylllydd cofrestredig yn unol â'n meini prawf cofrestru⁵, ac wedi
- darparu tystiolaeth ddogfennol o'r cymwysterau hyn gyda'u cais i ymaelodi â'r gofrestr

ddarparu tystiolaeth ychwanegol o'u gallu yn yr iaith Saesneg i fodloni'r cofrestrydd bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

Cwestiwn 2

- **Ydych chi o'r farn bod ein cynigion ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso yn y DU yn glir?**

Ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU

Mae'n bwysig bod ein cynigion yn deg ac yn gymesur, ac er mwyn hybu cysondeb, rydym wedi edrych ar y canllawiau a gyhoeddwyd llynedd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol mewn perthynas â Graddedigion Meddygol Rhyngwladol a meddygon sydd wedi cymhwyso yn Ewrop.

Mae'r canllawiau drafft felly yn cynnig y gall pob ymgeisydd sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU ddarparu'r un math o dystiolaeth i ddangos eu gwybodaeth o'r iaith Saesneg, boed iddynt gymhwyso mewn

- gwlad yn yr AEE neu'r Swistir neu
- wlad y tu allan i'r AEE

Dyma'r tri math o dystiolaeth yr ydym yn cynnig eu derbyn yn dystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg:

- Tystiolaeth ddogfennol o fod wedi ennill y sgorau gofynnol yn y prawf IELTS, neu
- Dystiolaeth ddogfennol o fod wedi ennill cymhwyster wedi ei ddysgu a'i arholi'n gyfan gwbl mewn Saesneg mewn gwlad lle mae Saesneg yn iaith gyntaf a brodorol⁶ ynddi, neu
- Dystiolaeth ddogfennol o ymarfer diweddar am ddwy flynedd o leiaf mewn gwlad sydd â Saesneg yn iaith gyntaf a brodorol ynddi.

Cwestiwn 3

- **Ydych chi'n cytuno y dylai fod angen i bob ymgeisydd sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU ddarparu'r un math o dystiolaeth fel y nodir ym mathau 1, 2 neu 3 y canllawiau er mwyn dangos eu gwybodaeth o'r iaith Saesneg?**

⁵ I weld y meini prawf ar gyfer fferyllwyr ewch i

http://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/Registration%20criteria%20for%20pharmacists%20September%202012_0.pdf

I weld y meini prawf ar gyfer technegwyr fferyllol ewch i <http://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/Registration%20criteria%20for%20pharmacy%20technicians%20Dec%202013.pdf>

⁶ Nid yw iaith gyntaf a brodorol yr un peth ag iaith swyddogol. Mae'r rhestr gwledydd a dderbyniwn wedi ei modelu ar restr Asiantaeth Ffiniau'r DU o 'wledydd sy'n siarad Sasneg yn bennaf' ac Iwerddon. (https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/340583/English_language_v11.0_EXT.pdf).

Byddai'r cynnig yn arwain at newid yn y dystiolaeth y byddem yn ei derbyn gan fferyllwyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i'r ymgeiswyr hyn ddarparu tystiolaeth eu bod wedi llwyddo'n ddiweddar⁷ yn fersiwn academaidd prawf (IELTS) gyda chyfanswm sgôr o 7 o leiaf a heb un sgôr yn is na 7 ymhob un o bedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad, i gyd mewn un eisteddiad. Rhaid cyflwyno tystysgrif IELTS yn dangos bod yr ymgeisydd wedi ennill y sgôr angenrheidiol gyda'r cais er mwyn bod yn gymwys i gychwyn ar y Rhaglen Asesu Fferyllwyr Tramor (OSPAP). Mae hyn yn ofyniad p'un ai bod yr ymgeisydd wedi cwblhau cymhwyster a ddysgwyd ac a arholwyd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Saesneg neu wedi gweithio mewn gwlad sydd â Saesneg yn iaith gyntaf a brodorol iddi (er enghraifft Awstralia neu Seland Newydd) ai peidio.

Mae'r canllawiau yn cynnig y gall fferyllwyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r AEE, fel pob ymgeisydd arall sydd wedi ymgeisio y tu allan i'r DU, gyflwyno yn lle dystiolaeth bod ganddynt radd fferylliaeth a ddysgwyd ac a arholwyd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Saesneg neu dystiolaeth ddogfennol o fod wedi ymarfer mewn gwlad sydd â Saesneg yn iaith gyntaf a brodorol ynddi i ddangos bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg.

Cwestiwn 4

- **Ydych chi'n cytuno y dylai fferyllwyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r AEE ac sy'n ymgeisio ar gyfer yr OSPAP allu dangos eu gwybodaeth o'r iaith Saesneg drwy ddarparu tystiolaeth o naill ai math 2 neu fath 3 fel y nodir yn y canllawiau?**

Byddai hyn yn cymryd lle'r gofyniad bod ymgeiswyr o'r fath yn darparu tystiolaeth eu bod wedi llwyddo yn y prawf IELTS ac ennill y sgorau angenrheidiol mewn un eisteddiad.

Rydym hefyd yn cynnig y byddai angen yr un math o dystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg p'un ai bod yr ymgeisydd am gofrestru fel fferylllydd neu dechnegydd fferyllol. Byddai hyn yn golygu y byddai angen i weithiwr fferyllol proffesiynol, sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU, os yw am gofrestru fel technegydd fferyllol, lwyddo yn fersiwn academaidd prawf IELTS gyda chyfanswm sgôr heb fod yn is na 7 a sgôr heb fod yn is na 7 ymhob un o bedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad ar un eisteddiad.

Cwestiwn 5

- **Ydych chi'n cytuno y dylai technegwyr fferyllol sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU, pan yn berthnasol, ennill yr un sgorau yn fersiwn academaidd prawf IELTS ag sy'n ddisgwyliedig gan fferyllwyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU?**

⁷ Wrth gyfeirio at 'diweddar' rydym yn golygu tystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg sy'n llai na 2 flwydd oed ar adeg gwneud cais i'r CFFC.

⁸ Gweler <http://www.ielts.org/> i gael rhagor o fanylion am y prawf IELTS.

Pryd i ddarparu tystiolaeth o wybodaeth o'r iaith Saesneg wrth gofrestru am y tro cyntaf

Mae angen i berson sy'n gwneud cais i gofrestru ddarparu tystiolaeth, gwybodaeth neu ddogfennau i ddangos bod ganddo'r wybodaeth o'r iaith Saesneg sy'n angenrheidiol i allu ymarfer fferylliaeth yn ddiogel ac yn effeithiol cyn iddo allu cofrestru. Rydym wedi egluro'r broses i'w dilyn yn y canllawiau. Nid ydym yn cynnig newidiadau i'r broses gofrestru ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso yn y DU. Mae gofyn eisoes i ymgeiswyr o'r fath ddarparu tystiolaeth ddogfennol o fod wedi llwyddo i gwblhau cymwysterau perthnasol y DU, fel yr eglurir ym meini prawf cofrestru fel fferylllydd⁹ neu dechnegydd fferyllol¹⁰.

Nid ydym chwaith yn cynnig newid yr adeg y bydd angen i ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r AEE gyflwyno tystiolaeth, gwybodaeth neu ddogfennau i ddangos bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd angen darparu tystiolaeth ddogfennol gyda'r cais i gychwyn yr OSPAP.

Mae'r broses ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso o fewn yr AEE yn cael ei hegluro yn y Gorchymyn Gwybodaeth o'r iaith Saesneg. Dim ond ar ôl cydnabod cymhwyster ymgeisydd y gellir gwneud cais ffurfiol am wybodaeth ymgeisydd o'r iaith Saesneg.

O ran ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso o fewn yr AEE ac sy'n cael eu hasesu drwy ddarpariaethau System Gyffredinol yr UE¹¹ pan benderfynir nad yw cymhwyster ymgeisydd yn diwallu ein hanghenion cofrestru cenedlaethol rhaid i'r ymgeisydd gwblhau mesur cyfadferiad cyn i ni gydnabod eu cymhwyster. O dan y Gyfarwydddeb¹² ein cyfrifoldeb ni, fel yr awdurdod cymwys, yw penderfynu ar natur y mesur cyfadfer a statws yr ymgeisydd sydd yn ymgymryd ag ef. Mae gweithredu deddfwriaeth mewn perthynas â fferyllwyr sydd wedi cymhwyso yn yr AEE¹³ yn darparu ar gyfer caniatáu i fesur cyfadfer fod yn gyfnod o hyfforddiant addasu gydag asesiadau. Ein polisi yw bod angen i ymgeisydd gwblhau cyfnod o ymarfer dan oruchwyliaeth gan gydymffurfio'n llawn gyda'n hanghenion hyfforddi cyn-gofrestru.

Rydym yn cynnig yn ein canllawiau y dylai fferyllwyr neu dechnegwyr fferyllol sydd wedi cymhwyso yn yr AEE ac a asesir drwy ddarpariaethau System Gyffredinol yr EU ddarparu i gychwyn dystiolaeth o'u gallu yn yr iaith Saesneg cyn iddynt gychwyn ar unrhyw fesur cyfadfer sydd ei angen¹⁴. Y rheswm dros hyn yw ein bod am sicrhau bod eu gallu yn yr iaith Saesneg yn diwallu ein hanghenion cyn iddyn nhw ddechrau gweithio, dan oruchwyliaeth, gyda chleifion, gofalwyr, teuluoedd a gweithwyr gofal iechyd eraill.

Cwestiwn 6

- **Ydych chi'n cytuno y dylai fod angen i ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso yn yr AEE, ac sydd arny'n nhw angen cwblhau mesur cyfadfer dan ddarpariaethau'r System Gyffredinol, ddarparu tystiolaeth o'u gwybodaeth o'r iaith Saesneg cyn iddyn nhw ddechrau gweithio dan oruchwyliaeth?**

9 http://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/Registration%20criteria%20for%20pharmacists%20September%202012_0.pdf

10 <http://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/Registration%20criteria%20for%20pharmacy%20technicians%20Dec%202013.pdf>

11 Erthyglau 10 i 14 Cyfarwydddeb 2005/36/EC ar gydnabod cymwysterau proffesiynol

12 Erthygl 3(1)(g) Cyfarwydddeb 2005/36/EC ar gydnabod cymwysterau proffesiynol

13 http://www.legislation.gov.uk/uksi/2007/2781/pdfs/ukxi_20072781_en.pdf

14 Mae'r broses a amlinellir ar gyfer ymgeiswyr y System Gyffredinol yn dibynnu ar ddeddfwriaeth derfynol y llywodraeth a gallai newid

Adnewyddu cofrestrriad

Mae'r canllawiau'n cynnig y byddai angen i aelodau cofrestredig sy'n adnewyddu eu cofrestrriad nodi a oes ganddynt dystiolaeth bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg os gofynnir am hynny gan y cofrestrydd.

Cwestiwn 7

Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig y dylai fod angen i aelodau cofrestredig, wrth adnewyddu aelodaeth:

- nodi a oes ganddynt dystiolaeth i ddangos eu gwybodaeth o'r iaith Saesneg a
- darparu'r dystiolaeth hon pan fo'r cofrestrydd yn gofyn am hynny?

Dychwelyd i'r gofrestr

Mae'r canllawiau yn cynnig nifer o feini prawf y byddem yn eu hystyried wrth benderfynu a oes angen i weithwyr fferyllol proffesiynol ddarparu tystiolaeth bellach i ddangos bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg. Nid yw hon yn rhestr gyflawn, ond mae'r meini prawf yr ydym yn cynnig eu hystyried yn cynnwys:

- Yr amser aeth heibio ers i'r ymgeisydd ymarfer ddiwethaf ym Mhrydain
- A ydynt wedi ymarfer yn rhywle arall neu wedi parhau i fyw ym Mhrydain pan oddi ar y rhestr
- A ydynt wedi dangos gallu yn yr iaith Saesneg yn flaenorol, pan yn ymgeisio i gofrestru y tro cyntaf

- Hyd y cyfnod y bu'r ymgeisydd yn gofrestredig ac yn ymarfer ym Mhrydain
- Gwybodaeth arall a allai fod yn berthnasol, er enghraifft a godwyd unrhyw ofidiau am allu'r ymgeisydd yn yr iaith Saesneg tra bu ar y gofrestr gynt.

Cwestiwn 8

- **Ydych chi'n cytuno gyda'n hagwedd tuag at ofyn am dystiolaeth bellach o wybodaeth o'r iaith Saesneg cyn i ni ganiatáu i ymgeisydd ddychwelyd i'r gofrestr?**

Pryderon am allu iaith

Rydym yn cynnig yn y canllawiau y gallwn ofyn i ymgeisydd wneud prawf academaidd IELTS ac ennill cyfanswm sgôr heb fod yn is na 7 a heb fod yn is na 7 ym mhedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad mewn un eisteddiad pan dderbynnir honiad neu pan fydd gennym bryderon ynghylch gwybodaeth o'r iaith Saesneg.

Cwestiwn 9

- **Ydych chi'n cytuno y gellir gofyn i ymgeisydd wneud fersiwn academaidd prawf IELTS ac ennill y sgorau angenrheidiol mewn un eisteddiad pan fo honiad neu ofid ynghylch gwybodaeth ymgeisydd o'r iaith Saesneg?**

Ymateb i'r ymgynghoriad ar ganllawiau drafft ynghylch tystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg ar gyfer y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Sut i ymateb

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn cyfres o gwestiynau, a restrir isod.

Gallwch gwblhau'r holiadur hwn neu fynd i'n gwefan a chwblhau fersiwn ar-lein yno.

Os ydych yn cwblhau'r holiadur, anfonwch ef i:

- e-bost consultations@pharmacyregulation.org gyda'r pwnc 'Ymgynghoriad iaith Saesneg'
- cyfeiriad
**Ymateb i'r ymgynghoriad iaith Saesneg,
Tîm Datblygu Rheoleiddio,
Cyngor Fferyllol Cyffredinol,
25 Canada Square,
Llundain E14 5LQ**

Os yw'ch atebion yn hirach na'r gofod rydym wedi ei ddarparu, gallwch ychwanegu dalennau ychwanegol. Nodwch i ba gwestiwn mae unrhyw ddalen ychwanegol yn berthnasol.

Rhaid derbyn ymatebion erbyn
Dydd Iau 17 Rhagfyr 2015.

Sut byddwn yn defnyddio'ch ymateb

Bydd eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei ddefnyddio i'n helpu i wneud penderfyniadau ynghylch ein canllawiau. Yn dilyn yr ymgynghoriad byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd. Efallai y byddwn yn dyfynnu rhannau o'ch ymateb yn yr adroddiad neu ddogfennau eraill ond yn ddiennw y byddan nhw'n ymddangos yn achos unigolion. Efallai y byddwn yn dyfynnu'ch ymateb yn llawn oni ddywedwch wrthym nad ydych am i ni wneud hynny. Os ydych am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech esbonio pan eich bod o'r farn bod y wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Ni allwn warantu y cedwir cyfrinachedd ymhob achos. Efallai y bydd angen i'r CFfC ddatgelu gwybodaeth dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2004 a Deddf Diogelu Data 1998 fel arfer).

Os oes ymwadiad cyfrinachedd awtomatig yn rhan o'ch ymateb, nid yw hyn, ynddo'i hun, yn rhwymo'r CFfC.

Bydd unrhyw wybodaeth monitro amrywiaeth a roddir gennych yn cael ei defnyddio'n anhysbys i adolygu effeithiolrwydd ein proses ymgynghori. Ni fydd yn rhan o ymateb a gyhoeddir.

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Ymateb i'r ymgynghoriad ar ganllawiau drafft ynghylch tystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg ar gyfer y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Cyhoeddi ymatebion:

Os ydych am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech egluro pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a ddarperir gennych yn gyfrinachol. Fodd bynnag, ni allwn warantu y cedwir cyfrinachedd ymhob achos.

dilëwch fy enw os cyhoeddir fy ymateb

Dywedwch wrthym os oes gennych bryderon ynghylch cyhoeddi unrhyw ran o'ch ymateb:

Cwestiynau Cefndir

Hoffem ofyn am rywfaint o wybodaeth gefndir i gychwyn. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall barn grwpiau, unigolion a/neu sefydliadau gwahanol a'n galluogi i ymateb yn well i'r farn honno.

Ydych chi'n ymateb:

- fel unigolyn – Ewch i adran A
- ar ran sefydliad – ewch i adran B

Adran A - Ymateb fel unigolyn

Rhowch eich:

enw: _____

cyfeiriad: _____

e-bost: _____

Ble rydych chi'n byw?

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Arall (nodwch)

Ydych chi'n ymateb fel:

- Gweithiwr fferyllol proffesiynol - Ewch i adran A1
- Aelod o'r cyhoedd
- Arall (nodwch)

Adran A1 – Gweithwyr fferyllol proffesiynol

Ydych chi'n:

- Fferyllydd
- Technegydd fferyllol

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio ble rydych chi'n gweithio'n bennaf:

- Fferyllfa annibynnol (fferyllfa gymunedol gydag 1-5 o leoliadau)
- Fferyllfa ysbyty
- Sefydliad gofal sylfaenol
- Addysg a hyfforddiant fferyllol
- Diwydiant fferyllol
- Arall (nodwch)

Os ydych yn gweithio mewn fferyllfa gymunedol, ydych chi'n:

- Berchennog fferyllfa
- Cyflogai
- Locwm hunangyflogedig

Adran B: Ymateb ar ran sefydliad

Rhowch:

Eich enw: _____

Teitl eich swydd: _____

sefydliad: _____

cyfeiriad: _____

E-bost: _____

Enw cyswllt ar gyfer ymholiadau: _____

Rhif ffôn cyswllt: _____

Ydy'ch sefydliad yn:

- Sefydliad fferyllol
- Sefydliad nad yw'n un fferyllol

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio'ch sefydliad orau:

- Corff/sefydliad yn cynrychioli gweithwyr proffesiynol
- Corff/sefydliad yn cynrychioli cleifion/y cyhoedd
- Corff/sefydliad yn cynrychioli masnach/diwydiant
- Fferyllfa gymunedol
- Fferyllfa luosog (fferyllfa gymunedol gyda 6 neu ragor o leoliadau)
- Fferyllfa luosog fawr (fferyllfa gymunedol gdyda 100 neu ragor o leoliadau)
- Sefydliad/grŵp GIG
- Sefydliad ymchwil, addysg a/neu hyfforddi
- Adran/sefydliad llywodraeth
- Corff rheoleiddio
- Arall (nodwch)

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich barn ar y pwyntiau isod, er ein bod yn croesawu sylwadau ar unrhyw faterion yr hoffech eu codi ynghylch y canllawiau drafft.

1. Ydych chi'n cytuno y bydd y meini prawf sy'n cael eu cynnig yn darparu sicrwydd i'r cofrestrydd bod gan ymgeisydd neu aelod cofrestredig y wybodaeth o'r iaith Saesneg sy'n angenrheidiol i allu ymarfer fferylliaeth yn ddiogel ac yn effeithiol?
(gweler tudalen 9 y ddogfen ymgynghorol)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

Oes gennych sylwadau pellach mewn ymateb i Gwestiwn 1?

2. Ydych chi o'r farn bod ein cynigion ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso yn y DU yn glir?
(gweler tudalen 10 y ddogfen ymgynghorol)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

Oes gennych sylwadau pellach mewn ymateb i Gwestiwn 2?

3. Ydych chi'n cytuno y dylai fod angen i bob ymgeisydd sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU ddarparu'r un math o dystiolaeth fel y nodir ym mathau 1, 2 neu 3 y canllawiau er mwyn dangos eu gwybodaeth o'r iaith Saesneg?
(gweler tudalen 10 y ddogfen ymgynghorol)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

Oes gennych sylwadau pellach mewn ymateb i Gwestiwn 3?

4. Ydych chi'n cytuno y dylai fferyllwyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r AEE ac sy'n ymgeisio ar gyfer yr OSPAP allu dangos eu gwybodaeth o'r iaith Saesneg drwy ddarparu dystiolaeth o naill ai math 2 neu fath 3 fel y nodir yn y canllawiau?

Byddai hyn yn cymryd lle'r gofyniad bod ymgeiswyr o'r fath yn darparu dystiolaeth eu bod wedi llwyddo yn y prawf IELTS ac ennill y sgorau angenrheidiol mewn un eisteddiad.
(gweler tudalen 11 y ddogfen ymgynghorol)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

Oes gennych sylwadau pellach mewn ymateb i Gwestiwn 4?

5. Ydych chi'n cytuno y dylai technegwyr fferyllol sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU, pan yn berthnasol, ennill yr un sgorau yn fersiwn academaidd prawf IELTS ag sy'n ddisgwyliedig gan fferyllwyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU?
(gweler tudalen 11 y ddogfen ymgynghorol)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

Oes gennych sylwadau pellach mewn ymateb i Gwestiwn 5?

6. Ydych chi'n cytuno y dylai fod angen i ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso yn yr AEE, ac sydd arnyn nhw angen cwblhau mesur cyfadfer dan ddarpariaethau'r System Gyffredinol, ddarparu tystiolaeth o'u gwybodaeth o'r iaith Saesneg cyn iddyn nhw ddechrau gweithio dan oruchwyliaeth?
(gweler tudalen 12 y ddogfen ymgynghorol)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

Oes gennych sylwadau pellach mewn ymateb i Gwestiwn 6?

7. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig y dylai fod angen i aelodau cofrestredig, wrth adnewyddu aelodaeth:

- nodi a oes ganddynt dystiolaeth i ddangos eu gwybodaeth o'r iaith Saesneg a
- darparu'r dystiolaeth hon pan fo'r cofrestrydd yn gofyn am hynny?

(gweler tudalen 13 y ddogfen ymgynghorol)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

Oes gennych sylwadau pellach mewn ymateb i Gwestiwn 7?

8. Ydych chi'n cytuno gyda'n hagwedd tuag at ofyn am dystiolaeth bellach o wybodaeth o'r iaith Saesneg cyn i ni ganiatáu i ymgeisydd ddychwelyd i'r gofrestr?

(gweler tudalen 13 y ddogfen ymgynghorol)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

Oes gennych sylwadau pellach mewn ymateb i Gwestiwn 8?

9. Ydych chi'n cytuno y gellir gofyn i ymgeisydd wneud fersiwn academaidd prawf IELTS ac ennill y sgorau angenrheidiol mewn un eisteddiad pan fo honiad neu ofid ynghylch gwybodaeth ymgeisydd o'r iaith Saesneg? (gweler tudalen 13 y ddogfen ymgynghorol)

- Ydw
- Nac ydw
- Dim yn gwybod

Oes gennych sylwadau pellach mewn ymateb i Gwestiwn 9?

Monitro cydraddoldeb

Rydym yn ymrwymedig, yn y CFFC, i hybu cydraddoldeb. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein holl waith fel rheoleiddiwr iechyd. Mae cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb yn bwysig i ni.

Rydym am sicrhau bod gan bawb gyfle i ymateb i'n hymgyngoriad ar y newidiadau a gynigir i'n rheolau. Bydd y ffurflen monitro cydraddoldeb hon yn rhoi gwybodaeth bwysig i ni i sicrhau bod hyn yn digwydd. Nid oes rhaid i chi ei chwblhau ac ni fydd eich atebion yma yn cael eu cysylltu gyda'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Beth yw eich grŵp ethnig?

Ticiwch un blwch

Gwyn

- Prydeinig Gwyddelig Arall

Du neu Brydeinig Du

- Caribiaidd Affricanaidd Arall

Cymysg

- Gwyn a du Caribiaidd Gwyn a du Affricanaidd
 Gwyn ac Asiaidd cymysg arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd Pacistanaidd
 Bangladeshaid Asiaidd arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Tsieineaidd neu Tsieineaidd

Prydeinig

- Grŵp ethnig arall
 (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Beth yw eich oedran?

Ticiwch un blwch

- dan 20 oed 20 – 29 oed 30 – 39 oed
 40 – 49 oed 50 – 59 oed 60 + oed

Beth yw eich rhyw?

Ticiwch un blwch

- gwryw benyw arall

Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

Ticiwch un blwch

- heterorywiol lesbiad neu hoyw deurywiol arall

Beth yw eich crefydd?

Ticiwch un blwch

- Dim Cristion Bwdhydd Hindŵ
 Iddewig Mwslim Sikh
 Arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd?

Ticiwch un blwch

- Ydw Nac ydw

Atodiad 1

Tystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg: Sicrhau bod gan weithwyr fferyllol proffesiynol y wybodaeth o'r Saesneg sydd arnynt eu hangen i allu cyflawni eu gwaith yn ddiogel ym Mhrydain.

Cyflwyniad

1. Mae meddu ar ddigon o allu yn yr iaith Saesneg er mwyn iddynt ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol wedi bod yn anghenraid ar gyfer gweithwyr gofal proffesiynol ers talwm. Mae'r [Safonau Ymddygiad, Moeseg a Pherfformiad¹⁵ yn gosod angenrhaid ar bob gweithiwr fferyllol proffesiynol](#) i allu cyfathrebu'n effeithiol gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaethau fferyllol a gweithio mewn partneriaeth gyda nhw i reoli eu triniaeth a'u gofal. Os nad oes gan aelod cofrestredig y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg gallai fod risg na all weithredu er lles pennaf ei gleifion a byddai hyn yn peryglu diogelwch cleifion. Gallai hyn arwain at ymchwiliad addasrwydd ymarfer.
2. Mae Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiol (Gwybodaeth o'r iaith Saesneg) 2015¹⁶ yn diwygio'r Gorchymyn Fferyllol ac yn ei gwneud yn orfodol bod gan bob aelod cofrestredig ac ymgeisydd wybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol cyn gallu ymaelodi â'n cofrestr.

Yn flaenorol, os oedd aelod cofrestredig yn aelod cenedlaethol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir, roedd y Gorchymyn Fferyllol yn ein gwahardd rhag gwirio eu sgiliau yn yr iaith Saesneg cyn i ni eu cofrestru. Dim ond Saesneg pobl o'r tu allan i'r AEE ac a gymhwysodd y tu allan i'r AEE yr oeddem yn gallu ei gwirio.

3. Mae'r Gorchymyn Gwybodaeth o'r iaith Saesneg yn cynyddu diogelwch y cyhoedd. Mae'n ein galluogi i gyflwyno rheolau iaith teg a chymesur fyddai'n berthnasol i bawb sy'n ymgeisio i ymaelodi â'r gofrestr ac yn rhoi pŵer i'r cofrestrydd ofyn am wybodaeth ynghylch gwybodaeth ymgeisydd o'r iaith Saesneg mewn rhai amgylchiadau.

Sut bydd y newid hwn yn effeithio arnoch chi

4. Mae Erthygl 23A Gorchymyn Fferyllol 2010¹⁷ yn gorfodi'r Cyngor i gyhoeddi canllawiau yn egluro'r dystiolaeth, gwybodaeth neu ddogfennau y bydd yn rhaid i chi eu darparu i ddangos bod gennych wybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg i allu ymarfer yn ddiogel ym Mhrydain a'r broses i'w dilyn wrth benderfynu ar hynny.

¹⁵ www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/standards_of_conduct_ethics_and_performance_july_2014.pdf

¹⁶ www.legislation.gov.uk/uksi/2015/806/pdfs/ukxi_20150806_en.pdf

¹⁷ Cyflwynwyd Erthygl 23A y Gorchymyn Fferyllol gan y Gorchymyn Gwybodaeth o'r iaith Saesneg

5. Mae'r ddeddf a'r canllawiau yn berthnasol i aelodau cofrestredig ac i ymgeiswyr sydd am ymaelodi â'r gofrestr. Mae felly yn berthnasol:

- p'un ai'ch bod yn ymgeisio i gofrestru fel fferylllydd neu fel technegydd fferyllol a
- ph'un ai'ch bod wedi cymhwyso fel gweithiwr fferyllol proffesiynol:
 - yn y Deyrnas Unedig (DU),
 - mewn cenedl-wladwriaeth arall o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir, neu
 - mewn gwlad y tu allan i'r DU, yr AEE neu'r Swistir.

6. Rhaid i'r cofrestrydd ystyried y canllawiau hyn wrth benderfynu a ydych wedi dangos bod gennych y wybodaeth sy'n angenrheidiol o'r iaith Saesneg. Gall y cofrestrydd wrthod eich cofrestru os na ddarparwch dystiolaeth o'ch gwybodaeth o'r iaith Saesneg neu os nad yw eich tystiolaeth yn bodloni'r meini prawf a ddisgrifir yn y canllawiau hyn.

Meini prawf asesu tystiolaeth iaith

7. Nodir ein meini prawf ar gyfer asesu tystiolaeth a gwybodaeth ynghylch gwybodaeth o'r iaith Saesneg isod. Mae'r meini prawf yn adlewyrchu ein nod o sicrhau diogelwch cleifion ac yn darparu sicrwydd digonol bod gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg¹⁸ i'ch galluogi i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol fel gweithiwr fferyllol proffesiynol ym Mhrydain Fawr er mwyn i ni allu'ch cofrestru chi.

8. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth a ddarparwch ddangos eich gallu yn y pedwar maes canlynol:

- Darllen
- Ysgrifennu
- Gwranddo a
- Siarad yn Saesneg

A rhaid iddi:

- fod yn ddiweddar, yn wrthrychol, yn annibynnol ac yn wydn;
- dangos yn glir eich bod yn gallu darllen, ysgrifennu a chyfathrebu gyda chleifion, defnyddwyr gwasanaethau fferyllol, perthnasau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn Saesneg;
- fod yn hawdd ei dilysu gennym ni.

Mathau o dystiolaeth y byddwn yn eu derbyn i ddangos eich gwybodaeth o'r iaith Saesneg

Ymgeiswyr wedi cymhwyso yn y DU

9. Os ydych yn ymgeisio i ymaelodi fel fferylllydd â'r gofrestr ac wedi cymhwyso yn y DU ac wedi cwblhau

- Gradd feistr mewn Fferylliaeth wedi ei hachredu gan y CFfC mewn prifysgol yn y DU a
- Hyfforddiant cyn-gofrestru a'r asesiad cofrestru yn y DU

¹⁸ Cyflwynwyd Erthygl 3(1) ac Erthygl 20(1)(a)(iia) a 2(a)(iia) Gorchymyn Fferyllol 2010 gan y Gorchymyn Gwybodaeth o'r iaith Saesneg

10. Os ydych yn ymgeisio i ymaelodi fel technegydd fferyllol a'ch bod wedi cymhwyso yn y DU ac wedi cwblhau:
- Cymhwyster gwybodaeth a gallu cydnabyddedig yn y DU tra'n gweithio dan oruchwyliaeth neu gyfarwyddyd fferyllydd cofrestredig ym Mhrydain, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw

byddwch yn y rhan fwyaf o achosion yn bodloni'r cofrestrydd yn awtomatig bod gennych y wybodaeth o'r iaith Saesneg sy'n angenrheidiol i gofrestru.

Ymgeiswyr wedi cymhwyso y tu allan i'r DU

11. Mae gwahanol ffyrdd y gallech ddangos bod gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg i allu ymarfer ym Mhrydain ac adlewyrchir hyn yn y mathau o dystiolaeth a dderbyniwn.
12. Byddwn yn adolygu ein gofynion ynghylch tystiolaeth o'r iaith Saesneg yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas. Byddwn yn ystyried yn llawn ffynonellau tystiolaeth newydd sy'n gallu rhoi sicrwydd bod gennych wybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg.
13. Fodd bynnag, ar sail ein profiad o asesu tystiolaeth iaith gyda fferyllwyr rhyngwladol wedi cymhwyso y tu allan i'r AEE rydym yn nodi isod y mathau o dystiolaeth y byddwn yn eu derbyn i ddangos bod gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg i allu ymarfer fel gweithiwr fferyllol proffesiynol ym Mhrydain.

Tystiolaeth math 1:

Llwyddo'n ddiweddar¹⁹ yn fersiwn academiaidd y System Profi Iaith Saesneg Ryngwladol (IELTS)²⁰ gyda chyfanswm sgôr o 7 o leiaf, a heb fod unrhyw sgôr yn is na 7 ym mhedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad mewn un eisteddiad.

14. Efallai y derbyniwn sgorau prawf IELTS sy'n hŷn na dwy flwydd oed os gallwch ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cynnal eich hyfedredd yn yr iaith Saesneg ers hynny. Gallai hyn fod, er enghraifft, os ydych wedi gweithio fel fferyllydd mewn gwlad sydd ag iddi Saesneg yn iaith gyntaf a brodorol ers gwneud y profion a bod o leiaf 75% o'ch ymwneud dyddiol gyda chleifion, gofalwyr, teuluoedd a gweithwyr gofal iechyd eraill wedi bod mewn Saesneg.

Tystiolaeth math 2:

Cymhwyster fferyllol diweddar wedi ei ddysgu a'i arholi mewn Saesneg mewn gwlad (heblaw am y DU) sydd ag iddi Saesneg yn iaith gyntaf a brodorol²¹ (e.e. Iwerddon, Unol Daleithiau America, Awstralia, Seland Newydd).

15. Rhaid i'r cwrs cyfan fod wedi ei ddysgu a'i arholi mewn Saesneg a bod o leiaf 75% o unrhyw hyfforddiant yn cynnwys rhyngweithio clinigol, cyswllt gyda chleifion, eu gofalwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a fu'n rhan o'r cwrs wedi ei gynnal yn Saesneg

¹⁹ Wrth gyfeirio at 'diweddar' rydym yn golygu tystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg sy'n llai na 2 flwydd oed ar adeg gwneud cais i'r CFFC.

²⁰ <http://www.ielts.org/>

²¹ Nid yw iaith gyntaf a brodorol yr un peth ag iaith swyddogol. Mae'r rhestr gwledydd a dderbyniwn wedi ei modelu ar restr Asiantaeth Ffiniau'r DU o 'wledydd sy'n siarad Sasneg yn bennaf' ac Iwerddon. (https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/340583/English_language_v11.0_EXT.pdf).

16. Bydd angen i chi allu dangos bod eich hyfforddiant wedi rhoi cyfle i chi ddangos eich gallu yn darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad yn Saesneg.

Tystiolaeth math 3:

Ymarfer diweddar am o leiaf ddwy flynedd fel gweithiwr fferyllol proffesiynol mewn gwlad y mae'r iaith Saesneg yn iaith gyntaf a brodorol ynddi.

17. Bydd angen i chi ddarparu geirda ysgrifenedig manwl oddi wrth eich cyflogwr/wyr yn tystio i'ch gwybodaeth o'r iaith Saesneg. Yn rhan o'r dystiolaeth hon, bydd angen i'ch cyflogwr ddarparu tystiolaeth o sut rydych wedi dangos eich gallu ym mhedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad yn Saesneg.
18. Os bu'n rhaid i chi lwyddo mewn prawf iaith Saesneg cyn gallu cofrestru ac ymarfer fel gweithiwr fferyllol proffesiynol mewn gwlad sydd â Saesneg yn iaith gyntaf a brodorol ynddi gallwch ddarparu tystiolaeth o fod wedi llwyddo mewn asesiad iaith Saesneg o'r fath.

Pryd bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'ch gwybodaeth o'r iaith Saesneg wrth gofrestru am y tro cyntaf

Mae'r adran hon yn disgrifio sut a phryd y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth neu wybodaeth i ddangos a oes gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol mewn fferylliaeth ym Mhrydain, a'r broses y byddwn yn ei dilyn. Bydd y broses yn dibynnu ble y cymhwysoch chi.

Ymgeiswyr wedi cymhwyso yn y DU

19. Os ydych yn ymgeisydd a gymhwysodd yn y DU nid yw'r broses gofrestru wedi newid ers pan gyflwynwyd y gofynion o ran yr iaith Saesneg. Fel gynt, bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth ddogfennol o fod wedi llwyddo i ennill y cymwysterau perthnasol yn y DU a nodir ym meini prawf cofrestru fel fferylllydd²² neu fferylllydd technegol²³ gyda'ch cais i gofrestru. Rhaid i chi ddarparu'r dystiolaeth yn y dull a ddisgrifir yn y ffurflen cais i ymgeisio a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â hi. Ni fydd angen i chi ddarparu tystiolaeth bellach o'ch gallu yn yr iaith Saesneg fel arfer.
20. Ni fydd angen fel arfer i ymgeiswyr fferyllol a gyflwynodd gynllun hyfforddi cyn-gofrestru a oedd yn gwneud cais i gwblhau hyd at 13 wythnos o'u lleoliad hyfforddi cyn-gofrestru mewn cenedl-wladwriaeth Ewropeaidd arall yn unol â'r cynllun hyfforddi cyn-gofrestru²⁴ ac yna basio asesiad cofrestru'r CFC ddarparu tystiolaeth bellach o'u gallu iaith gyda'u cais i gofrestru.

²² http://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/Registration%20criteria%20for%20pharmacists%20September%202012_0.pdf

²³ <http://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/Registration%20criteria%20for%20pharmacy%20technicians%20Dec%202013.pdf>

²⁴ <http://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/GPhC%20Education%20Procedures%20December%202013.pdf>

Ymgeiswyr wedi cymhwyso y tu allan i'r DU

21. Os ydych yn ymgeisydd a gymhwysodd y tu allan i'r DU, bydd y broses i ddarparu tystiolaeth o'ch gwybodaeth o'r iaith Saesneg yn dibynnu a gymhwysoch
- mewn gwlad y tu allan i'r DU, AEE neu'r Swistir. Os yw hyn yn berthnasol i chi, bydd rhaid i chi ddilyn y broses a ddisgrifir dan ymgeiswyr o'r tu allan i'r AEE a ddisgrifir isod
 - yn yr AEE neu'r Swistir ac yn dod o dan ddarpariaethau Cyfarwyddeb 005/36/EC ar Gynabod Cymwysterau Proffesiynol (y Gyfarwyddeb)²⁵. Yn yr achosion hyn bydd rhaid i chi ddilyn y broses a ddisgrifir dan ymgeiswyr wedi cymhwyso yn yr AEE isod.

22. Ymgeiswyr wedi cymhwyso y tu allan i'r AEE

- 22.1 Os ydych yn fferylllydd a gymhwysodd y tu allan i'r AEE bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i ddangos eich gallu yn yr iaith Saesneg yn rhan o'ch cais i gychwyn Rhaglen Asesu Fferyllwyr Tramor (OSPAP)²⁶.
- 22.2 Os na allwch ddarparu tystiolaeth sy'n bodloni'r meini prawf o dan y prif gymhwyster fferyllol neu ymarfer diweddar mewn gwlad sydd â Saesneg yn iaith gyntaf a brodorol ynddi bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'ch hyfedredd yn yr iaith Saesneg drwy ennill y sgorau gofynnol yn fersiwn academaidd prawf IELTS mewn un eisteddiad.

- 22.3 Os ydych yn weithiwr fferyllol proffesiynol sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r AEE a'ch bod am gofrestru fel technegydd fferyllol ni fydd angen i chi fel arfer ddarparu tystiolaeth ychwanegol o'ch gallu iaith wrth ymgeisio i gofrestru, gan y byddwch gyntaf wedi gorfod diwallu'r un anghenion ag ymgeisydd sydd wedi cymhwyso yn y DU, fel y disgrifir ym mharagraff 10. Fel nawr, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru fel technegydd fferyllol gyda'ch cais i gofrestru. Rhaid i chi ddarparu'r dystiolaeth yn y dull a ddisgrifir yn y ffurflen cais i ymaelodi a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â hi.

- 22.4 Fodd bynnag, os bydd sefyllfa'n codi yn ystod y broses gofrestru lle bydd ar ymgeisydd angen gwasanaethau cyfieithydd neu berson arall er mwyn cyfathrebu mewn Saesneg gyda ni byddwn yn adolygu'r dystiolaeth sydd eisoes wedi ei darparu. Yn yr achosion hyn rydym yn debygol o ofyn am dystiolaeth bellach o wybodaeth yr ymgeisydd o'r iaith Saesneg cyn caniatáu cofrestru.

23. Ymgeiswyr wedi cymhwyso yn yr AEE

- 23.1 Os ydych yn fferylllydd sydd wedi cymhwyso yn yr AEE bydd angen i chi yn gyntaf wneud cais i gael eich cymhwyster wedi ei gydnabod. Nid oes angen i chi ddarparu tystiolaeth i ddangos eich gwybodaeth o'r iaith Saesneg wrth wneud cais am gydnabyddiaeth ond gallwch wneud hynny os dymunwch.

²⁵ www.eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:02005L0036-20140117&from=EN

²⁶ www.pharmacyregulation.org/education/pharmacist/overseas-pharmacists-assessment-programme

23.2 Os penderfynwn fod eich cymhwyster fel fferylllydd yn diwallu anghenion cydnabyddiaeth awtomatig dan y Gyfarwyddeb²⁷, byddwn yn eich hysbysu ein bod wedi cydnabod eich cymhwyster.

23.3 Pan fyddwch wedi darparu tystiolaeth o'ch gallu yn yr iaith Saesneg gyda'ch cais am gydnabyddiaeth a'r cofrestrydd yn penderfynu bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn bodloni ein meini prawf a'i fod o'r math a ddisgrifir o dan mathau o dystiolaeth uchod, ni fyddwn fel arfer yn gofyn am dystiolaeth bellach oddi wrthoch chi, a gallwch fwrw ymlaen â'ch cais i gofrestru.

23.4 Pan

- na ddarparoch dystiolaeth i ddangos eich gwybodaeth o'r iaith Saesneg neu
- pan ddarparoch dystiolaeth ond nad yw'n bodloni'r cofrestrydd ynghylch eich gallu yn yr iaith Saesneg

byddwn yn cydnabod eich cymhwyster, cyn belled â'i fod yn diwallu ein hanghenion. Byddwn yn ysgrifennu atoch yn eich hysbysu am hyn a gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o'ch gallu ieithyddol cyn i chi allu bwrw ymlaen gyda'ch cais i gofrestru. Os na ddarparoch dystiolaeth o'ch gwybodaeth o'r iaith Saesneg gyda'ch cais cychwynnol, ni ellir gwneud cais ffurfiol am dystiolaeth tan i ni gydnabod eich cymhwyster.

23.5 Os ydych yn fferylllydd neu'n dechnegydd fferyllol a gymhwysodd yn yr AEE a bod eich cais yn cael ei asesu drwy ddarpariaeth System Gyffredinol yr EU²⁸ byddwn yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o'ch gallu

yn yr iaith Saesneg cyn i ni roi awdurdod i chi gychwyn ar unrhyw fesurau cyfadfer. Y rheswm dros hyn yw ein bod am sicrhau bod eich gallu yn yr iaith Saesneg yn diwallu ein hanghenion cyn i chi ddechrau gweithio dan oruchwyliaeth gyda chleifion, gofalwyr, eu teuluoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

23.6 Os yw'r cofrestrydd yn dal heb ei fodloni gyda'ch gallu yn yr iaith Saesneg ar ôl i chi ddarparu tystiolaeth neu wybodaeth bellach, neu os nad ydych yn gallu darparu tystiolaeth, byddwn yn gofyn i chi lwyddo yn fersiwn academaidd y prawf IELTS ac ennill y sgorau angenrheidiol mewn un eisteddiad cyn i chi allu cychwyn ar fesurau cyfadfer pan fo'r rheiny'n berthnasol.

Adnewyddu cofrestrriad

24. Mewn cais i adnewyddu aelodaeth gofrestredig gofynnir i chi nodi a oes gennych dystiolaeth, gwybodaeth neu ddogfennau yn dangos bod gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg. Bydd gofyn i chi ddarparu'r dystiolaeth hon os gofynnir i chi wneud hynny gan y cofrestrydd.

Dychwelyd i'r gofrestr

25. Mewn achosion lle mae'ch aelodaeth wedi darod neu'ch bod wedi eich dileu eich hun o'ch gwirfodd o'r gofrestr gallwch ymgeisio i'r cofrestrydd i ddychwelyd i'r gofrestr ac ailosod eich aelodaeth. Mae rhai gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gwneud cais i ddychwelyd i'r gofrestr yn fuan ar ôl i'w haelodaeth ddarod tra bo eraill yn gwneud

²⁷ I gael ei gydnabod yn awtomatig rhaid i'ch cymhwyster fod wedi ei restru yn Atodiad V 5.6.2 a chydymffurfio gyda'r anghenion hyfforddi a ddisgrifir yn Erthygl 44 neu raid eich bod yn gallu buddio o'r hawliau caffaeledig a ddisgrifir yn Erthygl 23 Cyfarwyddeb 2005/36/EC.

²⁸ Erthyglau 10 i 14 Cyfarwyddeb 2005/36/EC.

cais ar ôl cyfnod hirach, wedi treulio amser yn gweithio dramor er enghraifft neu ar ôl egwyl i'w gyrfa.

26. Os ydych yn dychwelyd i'r gofrestr byddwn yn ystyried y meini prawf canlynol i benderfynu a ydych wedi dangos bod gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg:

- Yr amser aeth heibio ers i chi ymarfer ddiwethaf ym Mhrydain
- A ydych wedi ymarfer yn rhywle arall neu wedi parhau i fyw ym Mhrydain pan oddi ar y rhestr
- A ydych wedi dangos gallu yn yr iaith Saesneg yn flaenorol, pan yn ymgeisio i gofrestru am y tro cyntaf
- Hyd y cyfnod y buoch yn gofrestrdig ac yn ymarfer ym Mhrydain
- Gwybodaeth arall a allai fod yn berthnasol er enghraifft a godwyd unrhyw ofidiau am eich gallu yn yr iaith Saesneg tra buoch ar y gofrestr gynt.

27. Nid yw hon yn rhestr gyflawn ond mae'n rhoi awgrym o'r materion y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid gofyn am dystiolaeth bellach o'ch gallu yn yr iaith Saesneg cyn caniatáu i chi ddychwelyd i'r gofrestr.

Ffioedd

28. Os gofynnir i chi lwyddo yn fersiwn academiaidd y prawf IELTS ac ennill y sgorau angenrheidiol mewn un eisteddiad cyn ymgeisio i gael eich cofrestru neu'ch ailosod ar y gofrestr, rhaid i chi dalu'r ffi i sefyll y prawf IELTS eich hun.

Hawl i apelio

29. Dywed Erthygl 39 y Gorchymyn Fferyllol bod gennych hawl i apelio i'r Pwyllgor Apeliadau pan fo'r cofrestrydd yn penderfynu nad yw'n fodlon bod gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg ac yn gofyn i chi sefyll arholiad neu asesiad (y prawf IELTS).

Os bydd gofid am allu iaith yn cael ei godi pan fo fferylllydd neu dechnegydd fferyllol ar y gofrestr.

30. Dan erthygl 51(1)(ca) y Gorchymyn Fferyllol, gellir ystyried bod nam ar eich addasrwydd ymarfer ar y sail nad oes gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg. Os byddwn yn derbyn honiad neu os ydym yn ofni nad oes gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg a bod nam felly ar eich addasrwydd ymarfer, ymdrinnir â hyn drwy'r broses addasrwydd ymarfer. Ymdrinnir ag achosion o'r fath mewn ffordd debyg i unrhyw honiad arall o nam ar addasrwydd ymarfer. Os ydych yn destun honiad neu bryder gall y cofrestrydd, y Pwyllgor Ymchwilio neu'r Pwyllgor Addasrwydd Ymarfer ofyn i chi gael eich asesu o ran eich gwybodaeth o'r iaith Saesneg. Os bydd hyn yn digwydd bydd rhaid i chi sefyll fersiwn academiaidd y prawf IELTS ac ennill cyfanswm sgôr o 7 o leiaf heb sgôr is na 7 ymhob un o bedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad mewn un eisteddiad.

Cyngor Fferyllol Cyffredinol

**25 Canada Square,
Llundain
E14 5LQ**


Ff: 020 3713 8000

G: pharmacyregulation.org

E: info@pharmacyregulation.org

 [@TheGPhC](https://twitter.com/TheGPhC)

 [Facebook.com/TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)

 [LinkedIn.com/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)